



FFURFLEN ATGYFEIRIO AML-ASiantaeth DYFED-POWYS – Gwybodaeth Ategol

OS OES PRYDERON DI-OED AM OEDOLYN WRTH RISG, DYLLID CYSYLLTU AR Y FFÔN AR UNWAITH Â'R GWASANAETH ASESU / TÎM AR DDYLETSWYDD. GYDAG ACHOSION O'R FATH DYLLID LLENWI'R FFURFLEN HON WEDYN A'I HANFON AT Y GWASANAETH ASESU / TÎM AR DDYLETSWYDD YR UN DIWRNOD GWAITH YN UNOL Â GWEITHDREFNAU CYMRU GYFAN.

ATGYFEIRIADAU SIR GÂR: <ul style="list-style-type: none"> E-bost: cat@carmarthenshire.gov.uk Gwasanaeth IAA ar 0300 333 2222 <i>trwy Minicom ar: 01554 756741 neu trwy SMS: 07892 345678 neu gallwch atgyfeirio trwy ein gwefan www.carmarthenshire.gov.uk</i> 	ATGYFEIRIADAU CEREDIGION: <ul style="list-style-type: none"> Yn ystod Oriau Gwaith: Canolfan Gyswllt – Ffôn: 01545 574000 Ffacs: 01545 574002 E bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk Y Tu Hwnt i Oriau Gwaith: Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng – Ffôn: 0845 6015392
ATGYFEIRIADAU SIR BENFRO: <ul style="list-style-type: none"> Yn ystod Oriau Gwaith: Tîm Diogelu Oedolion – Ffôn: 01437 776056 (dim cyfleuster ffacs) E-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk Y tu hwnt i Oriau Gwaith: Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng – Ffôn: 08708 509508 [mae gwasanaeth ateb meddygar ar alwad yn derbyn galwadau gwasanaethau cymdeithasol y tu hwnt i oriau] 	ATGYFEIRIADAU POWYS: People Direct Powys: <ul style="list-style-type: none"> Ffôn: 01597 827666 E-bost: people.direct@powys.gov.uk

Arweiniad ar gyfer Atgyfeiriad

Cydweithio i Ddiogelu Pobl - cyfrol 1 - Mae'r Cyflwyniad a'r Trosolwg (a.28) yn datgan:

28. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin. Mae'r ddwy yn caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ni ddylid eu defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon heb ganiatâd ble y mae gofyniad cyfreithiol neu y mae'r gweithiwr proffesiynol yn ystyried ei fod er lles y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill.

29. Dylai unrhyw wybodaeth adnabyddadwy bersonol gael ei rhannu yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae WASPI yn fframwaith i'r holl sefydliadau cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru. Mae'n sail i gydweithio effeithiol ar draws sefydliadau, yn helpu i oresgyn rhwystrau canfyddedig ac yn galluogi i staff rannu gwybodaeth yn deg ac yn gyfreithiol. Mae rhagor o wybodaeth am WASPI i'w chael trwy ddilyn y ddolen: <http://www.waspi.org/>. HM Government - Information Sharing: guidance for practitioners and managers highlights:-

3.41 Nid yw'n bosibl rhoi arweiniad sy'n ymdrin â'r holl amgylchiadau ble y bydd rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd yn cael ei gyfiawnhau. Rhaid i chi wneud penderfyniad ar sail ffeithiau'r achos unigol. Ble y mae risg glir o niwed sylweddol i blentyn neu niwed difrifol i oedolyn, bydd prawf lles y cyhoedd ymron yn bendant yn cael ei fodloni (ac eithrio fel y disgrifir yn 3.43). Bydd achosion eraill ble y bydd achos cyfiawn gennych chi wrth rannu gwybodaeth gyfrinachol gyfyngedig er mwyn gwneud penderfyniadau ar rannu gwybodaeth bellach neu gymryd camau - dylai'r wybodaeth a rennir fod yn angenrheidiol i'r diben ac yn gymesur.

3.42 O dan rhai amgylchiadau bydd rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd fel arfer yn cael ei gyfiawnhau er lles y cyhoedd. Y rhain yw:

- pan mae tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef, neu wrth risg o ddioddef, niwed sylweddol; neu
- ble y mae tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod oedolyn yn dioddef, neu wrth risg o ddioddef, niwed difrifol; neu
- atal niwed sylweddol i blentyn neu niwed difrifol i oedolyn, gan gynnwys trwy atal, adnabod neu erlyn trosedd ddifrifol.

3.43 Eithriad i hyn fyddai ble y mae oedolyn sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau (gweler paragraff 3.30 [o Rannu Gwybodaeth: arweiniad i ymarferwyr a rheolwyr]) yn rhoi ei hun wrth risg ond nad yw'n cynnig risg o niwed sylweddol i blant neu niwed difrifol i oedolion eraill. Yn yr achos hwn efallai na fydd cyfiawnhad dros rannu gwybodaeth heb ganiatâd. Dylech geisio cyngor os ydych chi'n ansicr.

****Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn ymwneud ag anghywirdeb neu ychwanegiadau at y wybodaeth ategol hon neu'r MARF ei hun, cysylltwch ag Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk**